

RHYBUDD O FWRIAD

DEDDF RHEOLI TRAFNIDIAETH FFYRDD, 1984 ADRAN  
14(1) FEL YI DIWYGIWYD GAN DDEDDF TRAFNIDIAETH  
FFYRDD (CYFYNGIADAU DROS DRO), 1991

GORCHYMYN CYNGOR SIR YNYS MÔN /  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
(GWAHARDD TRAFFIG TRWODD DROS DRO)  
(CROESFAN WASTAD Y FALI) 2022

**RHODDIR DRWY HYN RYBUDD** fod Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council yn bwriadu dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad y rhybudd hwn wneud Gorchymyn bydd yn gwahardd dros dro pob cerbyd, ac eithrio cerbydau argyfwng, rhag teithio mewn unrhyw gyfeiriad ar hyd Croesfan Wastad Y Fali.

Mae angen y Gorchymyn ar gyfer gwaith cynnal a chadw'r groesfan rheilffordd gan Network Rail.

Y ffordd arall yw o bwynt gogledd dwyreiniol y caead, teithio mewn cyfeiriad gogledd dwyreiniol ar hyd y B4545 Ffordd yr Orsaf, Y Fali i'r groesffordd gyda'r A5 ger y Valley Hotel. Troi i'r chwith i fynd ar yr A5 a chario 'mlaen mewn cyfeiriad gogledd gorllewinol i'r gyffordd gyda Lôn Spencer. Troi i'r chwith i fynd ar Lôn Spencer a pharhau mewn cyfeiriad de gorllewinol i'r gyffordd gyda'r B4545 Ffordd yr Orsaf. Bydd y gwrthwyneb yn berthnasol i draffig sy'n teithio o'r cyfeiriad arall.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 19eg Chwefror, 2022 a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod na fydd yn fwy na 4 wythnos neu hyd nes y cwblheir y gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd, pa un bynnag fyddo gyntaf. Ar hyn o bryd disgwylir i'r gwaith gael ei gynnal mewn dau gam. Y cam cyntaf rhwng 11:20yh ar 19eg Chwefror, 2022 a 7:45yb ar 20fed Chwefror, 2022 a'r ail gam rhwng 11:20yh ar 26ain Chwefror, 2022 a 7:45yb ar 27ain Chwefror, 2022.

NOTICE OF INTENTION

ROAD TRAFFIC REGULATION ACT, 1984 SECTION  
14(1) AS AMENDED BY THE ROAD TRAFFIC  
(TEMPORARY RESTRICTIONS) ACT, 1991

CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL  
(TEMPORARY PROHIBITION OF THROUGH TRAFFIC)  
(VALLEY LEVEL CROSSING) ORDER 2022

**NOTICE IS HEREBY GIVEN** that Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council intend not less than seven days from the date hereof to make an Order, the effect of which will temporarily prohibit all vehicles, except for emergency vehicles, from travelling in either direction across Valley Level Crossing.

The Order is necessary for Network Rail level crossing maintenance.


The alternative route will be from the north eastern point of the closure, travel in a north easterly direction along the B4545 Station Road Valley to the crossroads with the A5 by the Valley Hotel. Turn left onto the A5 and proceed in a north westerly direction to the junction with Spencer Road. Turn left onto Spencer Road and proceed in a south westerly direction to the junction with the B4545 Station Road, and vice versa for traffic travelling in the other direction.

The Order comes into effect on 19<sup>th</sup> February, 2022 and will continue in force for a period not exceeding 4 weeks or until the work which it is proposed to carry out on the road is completed, whichever is the earlier. At this stage it is anticipated that the works will take place in two stages. The first stage between 11:20pm on 19<sup>th</sup> February, 2022 and 7:45am on 20<sup>th</sup> February, 2022 and between 11:20pm on 26<sup>th</sup> February, 2022 and 7:45am on 27<sup>th</sup> February, 2022

DYDDIEDIG

02/02/2022

DATED

  
ROBYN W JONES

RHEOLWR GWASANAETHAU CYFREITHIOL/LLEGAL SERVICES MANAGER  
CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
SWYDDFA'R SIR/COUNTY OFFICES, LLANGFNI, YNYS MÔN LL77 7TW

AM FWY O WYBODAETH YNGLYN Â'R UCHOD CYSYLLTWCH Â'R ADRAN GYFREITHIOL AR / FOR FURTHER INFORMATION REGARDING THE ABOVE PLEASE TELEPHONE THE LEGAL SECTION ON LLANGFNI 01248 752389 HT-023835-SMJ

Croeso i chi ddelio gyda'r Cyngor yn Gymraeg neu'n Saesneg. Cewch yr un safon o wasanaeth yn y ddwy iaith.

You are welcome to deal with the Council in Welsh or English. You will receive the same standard of service in both languages.